# Tyfu a Rhannu / Grow and Share

## Rhaglen Datblygu ac Arddangos Celfyddydau Awyr Agored Articulture (Cymru)

Mae Articulture yn gwahodd mynegiannau o ddiddordeb gan artistiaid a chwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n datblygu gwaith newydd ar gyfer perfformio yn yr awyr agored (er enghraifft theatr stryd, syrcas, dawns, pypedwaith, perfformiadau cerdded neu waith cyfranogol). Mae'r rhaglen hon ar gyfer gwaith sydd eisoes yn cael ei ddatblygu ac mae'n cynnig mentora, cefnogaeth gan gynhyrchydd, a'r cyfle i rannu gweithiau sydd wedi'u datblygu'n dda gyda rhaglenwyr a gwyliau mewn arddangosfa ddiwedd mis Medi 2026.

Nid yw'r rhaglen hon yn comisiynu gwaith newydd. Rydym yn chwilio am waith sydd eisoes ar y gweill a fyddai'n elwa o gael cymorth i ddatblygu.

### Cefndir Articulture

Mae Articulture yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu celfyddydau awyr agored o safon uchel yng Nghymru. Rydym yn gweithio gydag artistiaid a phartneriaid ar draws sectorau gwahanol i gefnogi artistiaid ar wahanol gyfnodau o'u gyrfaoedd. Mae ein gwaith yn cysylltu artistiaid o Gymru â chynulleidfaoedd, rhaglenwyr a gwyliau yng Nghymru a thu hwnt, gan gefnogi gyrfaoedd cynaliadwy a chyfranogiad ehangach mewn celfyddydau awyr agored.

### Cefndir Tyfu a Rhannu / Grow and Share

**Mae'r rhaglen hon, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yn cefnogi artistiaid yn ystod gwanwyn a haf 2026.**

Mae'n canolbwyntio ar:

- atgyfnerthu'r gwaith
- mentora
- cefnogi parodrwydd ar gyfer teithio neu gyflwyno'r gwaith yn y dyfodol

Mae'r rhaglen yn cefnogi artistiaid unigol a grwpiau o hyd at bedwar person ac yn dod i ben gydag arddangosfa ddiwedd mis Medi 2026. Bydd yr arddangosfa'n cysylltu artistiaid yn uniongyrchol â rhaglenwyr, cynhyrchwyr a gwyliau.

### Pa Gymorth sy'n cael ei Gynnig?

Bydd artistiaid a ddewisir yn cael:

- Hyd at 12 awr o fentora â thâl (fesul darn o waith)
- Sesiwn gyda chynhyrchydd i gefnogi datblygiad a chyflwyniad y gwaith
- Cymorth gyda marchnata, gwybodaeth dechnegol a mynediad at wybodaeth
- Cyfle â thâl i rannu'r gwaith yn yr arddangosfa (ffi sefydlog ynghyd â threuliau)
- Ffilmio proffesiynol, yn cynnwys:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

- o clip byr
- o fideo hyrwyddo munud o hyd
- o cyfleoedd i gysylltu'n uniongyrchol â rhaglenwyr a phartneriaid gwyliau

## Pwy all wneud cais?

Rydym yn croesawu diddordeb gan artistiaid a chwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n gweithio yn yr awyr agored neu sy'n dymuno gwneud hynny. Anogir artistiaid awyr agored o bob math, gan gynnwys syrcas, theatr, dawns, pypedwaith, perfformiadau cerdded a gwaith cyfranogol, i wneud cais.

Gall artistiaid fod ar unrhyw gam o'u gyrfa. Rydym yn annog diddordeb yn benodol gan artistiaid sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector celfyddydau awyr agored.

Artistiaid sydd eisoes yn gweithio ar ddarn newydd o waith awyr agored. **Nid yw'r rhaglen hon yn comisiynu gwaith newydd.** Rydym yn chwilio am waith sydd eisoes ar y gweill a fyddai'n elwa o gael cymorth i ddatblygu.

Nid yw'r Rhaglen hon yn Ariannu'r canlynol:

- Comisiynu gwaith newydd
- Teithio neu gyflwyno gwaith gorffenedig
- Costau cyfalaf neu offer

## Sut i Wneud Cais

Rydym am i'r broses ymgeisio hon fod yn glir, yn hyblyg ac yn hygyrch. Mae un set o gwestiynau cais (gweler isod), a gallwch ddewis sut rydych yn ymateb iddynt.

Gallwch wneud cais yn Gymraeg, Saesneg neu drwy BSL.

**Dewiswch sut rydych am wneud cais:**

**Opsiwn 1: Sgwrs**
Os gall sgwrs eich helpu i wneud cais, gallwch ofyn am sgwrs gyda chydymaith Articulture. Gallai hyn eich helpu i baratoi cais, neu gallwch ateb y cwestiynau cais fel rhan o'r sgwrs. Os hoffech drefnu sgwrs, cysylltwch â sarahyounan@articulture-wales.co.uk.
Pan fyddwch yn gofyn am sgwrs, rhowch wybod i ni os oes angen y canlynol arnoch:

- Sgwrs yn Gymraeg
- Sgwrs gyda dehongliad BSL
- Sgwrs yn Saesneg
- Unrhyw addasiadau neu drefniadau cyfathrebu eraill

**Opsiwn 2: Cais ysgrifenedig**

ARTICULTURE

- Llenwch ein ffurflen yn yr iaith o'ch dewis https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfTwdaVyeTcG1zmafuPRAyZC0MWxKCBpu3tBGOt2L1Isbvblw/viewform?usp=sharing&ouid=113745872399459229301
- Gallwch ysgrifennu mewn arddull sy'n addas i chi; mae pwyntiau bwled yn iawn
- Mae croeso i chi gynnwys delweddau neu ddolenni i'ch gwaith (gallwch ychwanegu dolenni gan ddefnyddio'r ffurflen)

**Opsiwn 3: Fideo neu neges lafar rydych wedi'i recordio eich hun**

- Uchafswm o 10 munud
- Wedi'i recordio ar eich ffôn neu gyfrifiadur
- Mae arddull anffurfiol yn iawn – nid ydym yn disgwyl fideo perffaith
- Ymatebwch i'r cwestiynau cais isod yn eich recordiad. Gallwch hefyd rannu delweddau neu enghreifftiau o waith ar y gweill
- Uwchlwythwch ar-lein (ar Vimeo, YouTube neu debyg) ac anfonwch y ddolen wylio at sarahyounan@articulture-wales.co.uk ac info@articulture-wales.co.uk

## Cwestiynau'r Cais

### Eich cefndir

- Beth yw eich enw (neu enw eich cwmni)?
- Ble ydych chi wedi'ch lleoli?
- Sut hoffech i ni gysylltu â chi? (e-bost / ffôn / arall)
- Beth yw eich prif iaith cyfathrebu?
  (Cymraeg / Saesneg / BSL / arall)

### Am y gwaith

- Beth yw teitl gweithio'r darn (os oes un)?
- Disgrifiwch y gwaith a sut byddai pobl yn ei brofi yn yr awyr agored.
- Ar ba gam mae'r gwaith ar hyn o bryd?
  *(Mae'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith sydd eisoes yn cael ei ddatblygu.)*
- Pwy sy'n gysylltiedig â gwneud y gwaith?
  *(Gallwch wneud cais fel artist unigol neu fel grŵp o hyd at bedwar person.)*

### Cefnogaeth

- Pa fath o gefnogaeth fyddai fwyaf defnyddiol i chi drwy'r rhaglen hon?
  *(Er enghraifft: mentora, cefnogaeth gan gynhyrchydd, siapio'r gwaith, paratoi ar gyfer teithio awyr agored.)*

### Mynediad

- A oes gennych unrhyw anghenion mynediad ar gyfer y cam ymgeisio?
- A oes gennych unrhyw anghenion mynediad rydych yn eu rhagweld yn ystod y cyfnod datblygu?

**Mae croeso i chi gynnwys delweddau, lluniadau neu glipiau byr os ydynt yn helpu i egluro'r gwaith.** Anfonwch eich cais at sarahyounan@articulture-wales.co.uk ac info@articulture-wales.co.uk

## Dyddiadau Allweddol

**Dyddiad cau:** Dydd Iau 4 Mehefin 2026, 5pm

**Clywed yn ôl:** Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod erbyn canol mis Mehefin 2026

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government